Technoleg Glyfar, Gwnaethpwyd i Ofalu

# Contact

Synhwyrydd Drws/Ffenestr

Canllaw Rhaglennu V 1.6




**Mae'r Contact yn synhwyrydd drws a ffenestr glyfar.**

Mae'r Contact yn ddatrysiad mynediad ac allanfa drws arloesol. Mae gan y dyluniad lluniaidd, diwifr sy'n cynnwys dyfais gyswllt a chanfod magnetig, sawl dull gweithredu sy'n arwain at un ddyfais ar gyfer pob cais (gweler y gwrthwyneb). Mae'r Contact yn syml i'w osod ac yn hawdd ei ddefnyddio.

## Gosodiad Sgriw



## Gosodiad Gludiog



## Cyflwyniad

Mae'r Cair Contact yn synhwyrydd drws a ffenestr arloesol, amlbwrpas a all ddileu'r angen am ddatrysiad allanfa eiddo mwy cymhleth. Mae gan y Contact lawer o wahanol foddau, ellir rhaglennu yn hawdd gan ddefnyddio'r botymau ar y ddyfais. Mae gan y ddyfais y nodweddion canlynol wedi'u hymgorffori, sy'n eich galluogi i ddarparu'r datrysiad cywir bob tro.

- Yn anfon neges radio pan fydd drws yn agor
- Yn anfon neges radio pan fydd drws yn agor ac yn cau
- Yn anfon neges radio pan fydd drws yn agor, ac yn ail-adrodd pob 45 eiliad neu 2 munud nes bod y drws wedi cau
- Yn anfon neges radio pan fydd drws wedi aros yn agored, am 2 neu 10 funud
- Opsiwn mynediad/allanfa i ofalwyr, yn caniatáu 15 eiliad i fynd i mewn neu allan o'r eiddo heb godi larwm diangen
- Botwm i ffwrdd/ymlaen, sydd yn hawdd ei anablu os fod angen
- Nodwedd i osodwyr, sydd yn nodi fod yr Contact a magnet o fewn pellter gweithio ei gilydd

## Gosod

Mae'r Contact yn ddiddos ag efo amddiffyniad tymheredd isel, sydd yn golygu gall y ddyfais cael ei osod tu fewn neu tu allan i'r eiddo. Mae'r llunia uwchben yn dangos sut all y Contact a magnet cael ei osod yn defnyddio sgriw (gosodiad sgriw), neu yn defnyddio padiau gludiog (gosodiad gludiog).

Ellir gosod yr Contact ar unrhyw ffrâm drws gyda'r magnet ar y drws, neu'r ffordd arall rownd. Mae'r Contact efo swîts 'reed' ar yr ochr, ac mae'r canol wedi nodi efo rhicyn ar y ddyfais. Pan fyddech chi yn ei osod, gwnewch yn siŵr fod y rhicyn ar y Contact a'r magnet yn lefel efo'i gilydd. Ddylai hefyd cael ei osod mor agos i'w gilydd a phosib, ond mae yna bellter gweithio i fynnu at 15mm i ffwrdd o'i gilydd - mae'r Modd Gosodwyr (opsiwn 7 ar y dudalen nesaf) yn ffordd dda i gadarnhau fod yr Contact yn gallu canfod y magnet.

Darllenwch y cyfarwyddiadau ar y dudalen nesaf cyn rhaglennu'r Contact.

## Troi Ymlaen a Diffodd

I droi ymlaen, pwyswch ag yna rhyddhau'r botwm bach. Mi fydd y dangosydd LED yn fflachio'n wyrdd rhwng 1 a 6 o weithia i ddangos pa rif modd mae'r ddyfais wedi ei rhaglennu i. I ddifodd y ddyfais, pwyswch ag yna rhyddhau'r botwm bach. Mi fydd y dangosydd LED yn fflachio yn goch unwaith

## Rhaglennu'r Moddau/Opsiynau

Mae yna 6 modd (1-6, sydd wedi ei esbonio isod) ag 2 opsiwn (8 a 9, wedi ei esbonio isod). All yr moddau cael ei ddefnyddio ar ben ei hyn neu gydag un o'r opsiynau i gynnig datrysiad personol, yn dibynu ar y sefyllfa. I raglennu'r modd/opsiwn, defnyddiwch y dull canlynol:

1. Pwyswch a dal lawr y botwm bach am tua 6 eiliad. Rhyddhau pan fydd yr LED yn fflachio'n goch
2. O fewn eiliadau o rhyddhau'r botwm yn gam 1, pwyswch ag yna rhyddhau'r botwm bach i baru efo'r rhif modd/opsiwn rydych eisio caniatáu/anablu e.e. unwaith am fodd 1, dwywaith am fodd 2, a.y.b. Bydd y LED yn blincio bob tro mae'r botwm yn cael ei wasgu
3. Pwyswch ag yna rhyddhau'r botwm mawr i gadarnhau rhif y modd/opsiwn o fewn ychydig o eiliadau o gwblhau cam 2
4. Mi fydd yr LED yn fflachio i gadarnhau rhif y modd/opsiwn sydd wedi cael ei ddewis

## Modd/Opsiynau

**1. Modd Drws yn Agored** (Gosodiad Ffatri). Mae modd 1 yn gyrru neges radio pan fydd y drws yn agor. Dylid defnyddio'r modd yma efo'r Buzzz neu Lifeline (os nad yw amser cychwyn a darfod eu hangen ar yr Lifeline). Mae'r modd yma yn gyfwerth gyda modd 'Door Guard' ar Universal Sensor

**2. Modd Drws yn Agor/Cau.** Mae modd 2 yn gyrru neges radio pan fydd y drws yn agor neu yn cau. Dylid defnyddio'r modd efo os fod yn defnyddio nodweddion 'Time Windows' neu 'Virtual Property Exit' ar Lifeline. Mae'r modd yma yn gyfwerth gyda modd 'Door Open/Closed' ar Universal Sensor

**3. Modd Drws yn Agored ag yn Parhau i Fod yn Agored am 45 eiliad.** Mae modd 3 yn gyrru neges radio pan fydd y drws wedi agor ac wedyn yn gyrru neges radio arall os fydd y drws dal yn agored ar ôl 45 eiliad, ac yn ailadrodd pob 45 eiliad nes bod y drws wedi cau

**4. Modd Drws yn Agored ag yn Parhau i Fod yn Agored am 2 funud.** Mae modd 4 yn gyrru neges radio pan fydd y drws wedi agor ac wedyn yn gyrru neges radio arall os fydd y drws dal yn agored ar ôl 2 funud, ac yn ailadrodd pob 2 funud nes bod y drws wedi cau

**5. Modd Drws ar Agor am 2 funud.** Nid oes digwyddiad pan fydd y drws yn agor ond mi fydd neges radio yn cael ei yrru os mae'r drws wedi cael ei gadael yn agored am 2 funud, ac yn ailadrodd pob 2 funud nes bod y drws wedi cau. I gyflymu'r broses rhaglennu, gosodwch y Contact i fodd 1 pan fydd yn rhaglenni gyda Buzzz neu Lifeline, ac wedyn osod i fodd 5. Mae'r modd yma yn gyfwerth gydag opsiwn 'Door Left Open' ar sensor Property Exit

**5. Modd Drws ar Agor am 10 funud.** Nid oes digwyddiad pan fydd y drws yn agor ond mi fydd neges radio yn cael ei yrru os mae'r drws wedi cael ei gadael yn agored am 10 funud, ac yn ailadrodd pob 10 funud nes bod y drws wedi cau. I gyflymu'r broses rhaglennu, gosodwch y Contact i fodd 1 pan fydd yn rhaglenni gyda Buzzz neu Lifeline, ac wedyn osod i fodd 6. Mae'r modd yma yn gyfwerth gydag opsiwn 'Door Left Open' ar sensor Property Exit

**7. Opsiwn Gosodwyr.** Mae'r nodwedd yma wedi'i ddylunio i helpu gosodwyr penderfynu le i osod y Contact a'r magnet. Mi fydd yr LED yn goleuo yn wyrdd os mae'r Contact yn canfod y magnet, ag yn goleuo'n goch os mae'r magnet rhy bell i ffwrdd. I ddefnyddio'r nodwedd hon, dilynwch y cyfarwyddiad uchod ag pwyso'r botwm bach 7 waith. Pwyswch unrhyw fotwm i adael y modd hwn, wedyn mi fydd yr Contact yn diffodd

**8. Opsiwn Mynediad/Allanfa i Ofalwyr.** Mae'r nodwedd hon yn galluogi 15 eiliad i fynd i mewn neu allan o'r eiddo heb greu galwad. Os mae'r botwm mawr yn cael ei bwyso ac mae'r drws yn cael eu gau o fewn 15 eiliad, ni fydd neges radio yn cael ei yrru. Mi all yr ofalwyr pwyso'r botwm ar unrhyw adeg o fewn y 15 eiliad - cyn y drws cael ei agor, tra bod y drws ar agor, neu ar ôl i'r drws cael eu gau
I alluogi'r opsiwn yma, dilynwch y camau 'Rhaglennu'r Moddau/Opsiynau' uchod - mi fydd y LED wyrdd yn fflachio 8 gwaith i gadarnhau fod yr opsiwn ofalwyr wedi ei droi ymlaen. I anablu'r opsiwn, dilynwch y camau eto - mi fydd y LED goch yn fflachio 8 waith i gadarnhau fod yr opsiwn ofalwyr wedi diffodd. Mi ellir defnyddio'r opsiwn yma gyda moddau 1, 2, 3 neu 4

**9. Galluogi/Anablu'r Botwm i Ffwrdd/Ymlaen.** Mi all y botwm bach cael ei anablu yn defnyddio'r opsiwn yma, yn golygu na fydd yn bosib diffodd y Contact
I *anablu'r* botwm i ffwrdd/ymlaen, gwnewch yn siŵr fod yr Contact wedi ei osod i fod ymlaen, wedyn dilynwch gamau 'Rhaglennu'r Moddau/Opsiynau' uchod - pwyswch y botwm bach 9 waith ac wedyn y botwm mawr unwaith - mi fydd y LED wyrdd yn fflachio 9 waith i gadarnhau fod y botwm wedi'i anablu. I alluogi'r botwm eto, pwyswch y botwm bach 9 waith ac wedyn y botwm mawr unwaith - mi fydd y LED goch yn fflachio 9 waith i gadarnhau fod y botwm wedi'i alluogi. Mi ellir defnyddio'r opsiwn yma gyda modd 1,2,3,4,5 neu 6.

**10. Gosodiad Ffatri.** I ail osod yr Contact i osodiadau ffatri (modd 1 gyda dim opsiynau wedi'i alluogi), dilynwch y camau canlynol:

1. Pwyswch a dal lawr y botwm bach am 7 eiliad nes bod y LED yn fflachio'n goch
2. Pwyswch a dal lawr y botwm bach 10 waith
3. Pwyswch ag yna rhyddhau'r botwm mawr
4. Pwyswch ac yna rhyddhau'r botwm bach tra bod y LED yn fflachio'n wyrdd/coch
5. Mi fydd yr LED yn goleuo yn wyrdd am eiliad ac wedyn coch i gadarnhau fod ail osod yr osodiadau yn llwyddiannus

## Cysylltu'r Contact i'r Buzzz, Lifeline neu System Teleofal Arall

1. Rhaglennu'r Contact i'r modd a ddymunir.
2. Paratowch y Buzzz/Lifeline/system wrth ei rhoi fewn fodd cofrestru
3. Actifadu'r Contact drwy alinio'r Contact a magnet ag yna gwahanu o'i gilydd.
4. Mi ddylai'r Buzzz/Lifeline/system cydnabod y ddyfais newydd

# Siart Llif Ddewislen Rhaglenni



## Manlyebau

| | |
|---|---|
| **Amledd Gweithredu** | 869 MHz |
| **Maint** | Contact (Gosodiad Gludiog) - H94 x Ll33 x D12.3mm<br>Contact (Gosodiad Sgriw - H119 x Ll34 x D16mm<br>Magnet - H50 x Ll14.5 x D11.5mm |
| **Batri** | CR 2450 Cell Geiniog y gellir ei newid |
| **Bywyd Batri** | 3 blynedd o dan yr amodau canlynol - 5 gweithrediad larwm y dydd |
| **ALB (Batri Isel Awto)** | Profi batri bob dydd |
| **Opsiynau Gosod** | Gosodiad Gludiog a Gosodiad Sgriw |
| **Pellter Gweithio ddi-wifr** | Hyd at 600m |
| **Diddos** | Safon IP67 |
| **Tymheredd Gweithredu** | -10°C i +55°C |
| **Cydymffurfio** | CE / RoHS 2 / RED |
| **Warant** | 24 mis |

## Newid Batri

O dan ddefnydd arferol, dylai'r batri para tua 3 mlynedd.
Mi all cael i'r batri drwy ddadsgriwio'r chwe sgriw ar gefn y Contact. Mi ddylai defnyddio batri CR2450 cell ceiniog i sicrhau bywyd batri fwyafswm. Mae'n bwysig fod y batri yn cael ei osod yn gywir. Cymerwch sylw ar y marciau. Unwaith mae'r batri wedi cael ei newid, sicrhau fod yr osodiadau rhaglenni dal yn gywir.

## Pacio

Mi ddylai offer sy'n cynnwys celloedd neu fatris cael ei phacio mewn pecyn cryf, anhyblyg a rhoi yn i le yn ofalus i sicrhau dim symudiad o fewn y pecyn i osgoi actifadu damweiniol. Rhaid i enw a chyfeiriad yr anfonwr fod yn weladwy yn glir ar y pecyn allanol.

## Datganiad cydymffurfiaeth:

Trwy hyn, mae Cair (UK) Ltd yn datgan bod y math o offer radio, Cair Contact yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb 2014/53/EU

## Diogelwch

Peidiwch â datgymalu na newid yr uned. Peidiwch ag agor y casin.

## Gwaredu

Dylid cael gwared ar yr holl wastraff electronig yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf.

Rhaid ei waredu o fewn y llif gwastraff trydanol ac electronig a pheidio â chael gwared arno yn y llif gwastraff arferol. Mae ailgylchu cynhyrchion gwastraff trydanol yn helpu i warchod adnoddau naturiol ac atal effeithiau andwyol ar yr amgylchedd.

Cysylltwch â'ch cyflenwr os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch.

**Cair (UK)**
Hanson Lane, Halifax, West Yorkshire, HX1 4SD
**T**: 01422 399 155 **E**: sales@we-cair.com **W**: www.we-cair.com